

1. Cyflwyniad

- 1.1 Mae National Energy Action (NEA) yn elusen tlodi tanwydd genedlaethol sy'n dymuno sicrhau y gall pawb yng Nghymru fforddio cadw eu cartrefi'n gynnes ac yn ddiogel.
- 1.2 Rydym yn croesawu'r cyfle hwn i roi barn ar yr hyn y dylai blaenoriaethau'r Pwyllgor fod dros y 12-18 mis i ddod.
- 1.3 Dyma gyfnod hollbwysig. Rydym yn wynebu argyfwng hinsawdd a bydd y deng mlynedd nesaf yn gweld ffocws angenrheidiol ar ddatgarboneiddio gwres mewn cartrefi a darparu dull pontio teg, fforddiadwy a chyfiawn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.
- 1.4 Yn y llwybr i sero net mae cyfle hollbwysig i wella bywydau aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru wrth i ni ddatgarboneiddio ac uwchraddio effeithlonrwydd ynni ein cartrefi presennol.
- 1.5 Gallai'r arbediad blynyddol cyfartalog ar gyfer dod â chartref at lefel resymol o effeithlonrwydd ynni newid bywydau, gan dorri biliau dros £300 bob blwyddyn a thros £1,000 i'r aelwydydd tlotaf yn y cartrefi lleiaf effeithlon. Trwy ganolbwyntio ymdrechion cynnar ar y 'gwaethaf yn gyntaf' mae'r arbedion sylweddol hyn yn cronni dros gyfnod hwy, ar yr un pryd â chymryd camau cynnar i ostwng allyriadau carbon yn sylweddol, creu swyddi, a thwf economaidd.
- 1.6 Rydym yn croesawu uchelgais datganedig Llywodraeth Cymru i gefnogi'r dull cartrefi-gwaethaf yn gyntaf a hoffem i'r Pwyllgor ystyried beth arall y gall Llywodraethau Cymru a'r DU ei wneud i roi mwy o gefnogaeth i ôl-osod mwy cynhwysfawr ar gyfer y cartrefi lleiaf effeithlon o ran ynni yng Nghymru. Mae'n rhaid i'r gweithgaredd hwn chwarae rôl hollbwysig wrth gyrraedd sero net, heb adael y rhai mwyaf anghenus, ar ei hôl hi.
- 1.7 Yn benodol, hoffem i'r Pwyllgor gynnwys fersiwn nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn ei blaenoriaethau, ochr yn ochr â'r Rhaglen Ôl-osod Wedi'i Optimeiddio a'r fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru. Dyma raglen flaenllaw Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi tanwydd, gan uwchraddio effeithlonrwydd ynni cartrefi sy'n dlawd o ran tanwydd ar draws gwahanol ddaliadaethau.

2. Pam mae effeithlonrwydd ynni domestig yn bwysig?

- 2.1 Cymru sydd â'r stoc adeiladau hynaf a lleiaf effeithlon o safbwynt thermol o'i chymharu â gwledydd eraill y DU a gwledydd gogledd Ewrop. Fel a ddisgwylir, mae gan anheddau hŷn yng Nghymru berfformiad ynni gwael a thymheredd dan do is o'i gymharu â'r rhai a godwyd yn fwy diweddar.¹

- 2.2 Mae Cymru ar ei hôl hi o ran Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon wrth uwchraddio effeithlonrwydd ynni ei stoc tai bresennol ac mae angen mwy o gynnydd yma nag yng ngwledydd eraill y DU er mwyn cyrraedd y cyfartaledd EPC Band C erbyn 2030.
- 2.3 Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar aelwydydd tlotach yng Nghymru; y mae llawer ohonynt wedi'u dal yn y cartrefi mwyaf aneffeithlon, er anfantais i'w hiechyd a'u llesiant. Mae effeithlonrwydd ynni gwael yn sbardun allweddol i dlodi tanwydd ac mae mwy nag 80% o aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru yn byw mewn cartrefi aneffeithlon²; yn uwch nag mewn unrhyw wlad arall yn y DU.
- 2.4 O ganlyniad, cyn y pandemig COVID-19 a'r ymchwydd diweddar mewn prisiau ynni, roedd angen i aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru wario £56.9m yn ychwanegol ar danwydd bob blwyddyn er mwyn cadw'n gynnes a bodloni costau rhedeg gofynnol eu hannedd. Mae hyn yn cyfateb i tua £431 yn ychwanegol fesul aelwyd y flwyddyn.³
- 2.5 Mae effaith ddeilliannol tai o ansawdd gwael ar wasanaethau iechyd yn ddifrifol, gan gostio tua £95m i'r GIG yng Nghymru bob blwyddyn.⁴ I'r gwrthwyneb, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) yn amcangyfrif bod hyn yn arwain at £4 o fuddion iechyd am bob £1 a wariwyd ar wella cynhesrwydd mewn cartrefi sy'n agored i niwed, a gallai fod bron i 40% yn llai o dderbyniadau i'r ysbyty ar gyfer rhai afiechydon sy'n gysylltiedig ag oerfel ymhlith y rhai y mae eu cartrefi wedi'u huwchraddio. Mae'n nodi hefyd bod pob £1 sy'n cael ei gwario ar addasiadau cyn rhyddhau o'r ysbyty yn cynhyrchu gwerth £7.50 o arbedion i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.⁵
- 2.6 O ganlyniad, mae'n rhaid i sero net ddarparu cyfle hollbwysig i wella bywydau aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru wrth i ni ddatgarboneiddio ac uwchraddio effeithlonrwydd ynni ein tai presennol.
- 2.7 Pa lwybrau bynnag a ddewisir, mae ôl-osod tai o'r pwys pennaf, a saif wrth wraidd datgarboneiddio a thlodi tanwydd. Fe all leihau costau ynni ac allyriadau carbon diangen yn sylweddol, gan arbed dros £400 y flwyddyn ar gyfartaledd i drigolion Cymru ar eu biliau ynni a chreu manteision amgylcheddol, economaidd ac iechyd hanfodol.⁶
- 2.8 I'r perwyl hwn, rydym yn croesawu'r ffocws a nodwyd gan y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog ar dai ac yn benodol, y cyfleoedd i denantiaid tai cymdeithasol o dan y Rhaglen Ôl-osod wedi'i Optimeiddio (ORP) a'r fersiwn newydd o Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC).
- 2.9 Fel a amlinellwyd yn llythyr y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, mae'r ORP yn gweithio ar y cyd â landlordiaid cymdeithasol gyda'r bwriad o baru datgarboneiddio'r grid, technolegau gwresogi newydd a gwelliannau adeiladwaith hysbys i roi eu cartrefi ar y trywydd i sero net dros y deng mlynedd nesaf, a bydd y fersiwn newydd o SATC yn gosod y safonau ar gyfer ôl-osod cartrefi cymdeithasol.
- 2.10 Er y gallai hyn osod tai cymdeithasol fel esiampl y gall daliadaethau eraill ddysgu ohoni, mae heriau sylweddol o hyd i rentwyr preifat a pherchen-feddianwyr.
- 2.11 Rhentwyr preifat a pherchen-feddianwyr yw'r mwyafrif llethol (87%) o'r boblogaeth sy'n wynebu tlodi tanwydd yng Nghymru. Y prawf litmws go iawn ar eu cyfer eleni mewn perthynas â symud ymlaen tuag at ein targedau newid yn yr hinsawdd a thlodi tanwydd fydd cynigion

Llywodraeth Cymru ar gyfer iteriad nesaf ei Rhaglen Cartrefi Cynnes, y disgwylir iddi ddechrau ymgynghori arni erbyn diwedd 2021.

3. Pam mae'n bwysig ystyried y materion hyn nawr?

3.1 Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn ystyried iteriad nesaf ei Rhaglen Cartrefi Cynnes.

3.2 Hyd yma, mae'r cynlluniau Nyth ac Arbed wedi gwneud gwelliannau sydd i'w croesawu i fywydau aelwydydd sy'n dlawd o ran tanwydd yng Nghymru, ond nid yw cwmpas a chyflymder y Rhaglen Cartrefi Cynnes wedi bod yn ddigonol i fynd i'r afael â'n hargyfwng cartrefi oer. Ei bwriad oedd defnyddio ymagwedd tŷ cyfan tuag at ddarparu pecyn o welliannau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim ond yn aml nid yw wedi cyflawni'r uchelgais hwn. Yn achos Nest, er enghraifft, roedd 93.8% o'r mesurau a osodwyd yn 2019/20 ar gyfer gosod boeleri a gwres canolog; dim ond 6.2% oedd yn inswleiddio safonol.⁷

3.3 Yn fwy cyffredinol, wrth i ni ddatgarboneiddio a phontio i sero net, mae'n hollbwysig bod Llywodraeth Cymru'n darparu cefnogaeth briodol ac wedi'i gwarantu i aelwydydd sy'n wynebu tlodi tanwydd ar draws Cymru i ôl-osod eu cartrefi a datgarboneiddio gwresogi; gan ymgorffori egwyddorion 'gwaethaf-yn-gyntaf' a 'ffabrig-yn-gyntaf' datganedig Llywodraeth Cymru.

3.4 Fel y mae'r Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog dros Newid yn yr Hinsawdd yn ei nodi, er mwyn cyflawni ein huchelgeisiau sero net bydd angen i Gymru ddatblygu polisi mwy cynhwysfawr ar ddatgarboneiddio gwresogi. Dyma her drawsbynciol sylweddol, sy'n gysylltiedig â gwahanol feysydd polisi gan gynnwys tlodi tanwydd a thai.

3.5 Mae hon yn flaenoriaeth i'w chroesawu. Mae'n un o brif bryderon polisiâu a rhaglenni cyfredol – gan gynnwys Rhaglen Ôl-osod wedi'i Optimeiddio Cymru a'r Cynllun Trechu Tlodi Tanwydd newydd, yn ogystal â Phapur Gwyn Llywodraeth y DU ar Ynni a'r Strategaeth Gwres ac Adeiladau sydd i ddod – ac, yn ein barn ni, bydd angen cydweithio'n effeithiol â Llywodraeth y DU hefyd.

3.6 Bydd y targed o gyrraedd allyriadau sero net erbyn 2050, gan gynnwys gostyngiadau sylweddol erbyn 2030 a 2040, yn peri newidiadau mawr yn y ffordd yr ydym i gyd yn byw ein bywydau a newidiadau dramatig yn y system ynni sy'n sail iddynt. Mae hyn yn cynnwys gwneud newidiadau sylweddol yn y ffordd y caiff trydan ei gynhyrchu, ei storio a'i ddefnyddio mewn cartrefi, newidiadau radical mewn gwresogi domestig, y tebygolrwydd y caiff mathau newydd o dariffau ynni a phrisiau eu cyflwyno, a chostau newydd neu wedi'u hailstrwythuro ar filiau ynni o ganlyniad i'r polisi.

3.7 Mae'n hanfodol bod unrhyw newidiadau'n manteisio i'r eithaf ar y cyfle i wneud mwy i gefnogi'r rhai sydd â'r angen mwyaf, ar yr un pryd â thorri allyriadau.

3.8 Byddem yn croesawu i'r Pwyllgor ymchwilio i'r materion hanfodol hyn. Mae'r amseriadau wedi'u halinio'n dda â'r Pwyllgor yn pennu ei flaenoriaethau, gan y disgwylir ymgynghoriadau a chyhoeddiadau perthnasol gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU erbyn diwedd 2021 a chwarter cyntaf 2022.

3.9 Dylai hyn ddarparu cyfle defnyddiol i fynd ar drywydd argymhellion Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig flaenorol y Senedd, gan ddilyn ei ymchwiliad i dlodi tanwydd yng Nghymru yn 2019/20⁸, a helpu i sicrhau nad ydym yn gadael neb ar ei hôl hi.⁹

4. Sylwadau i gloi

4.1 Rydym yn croesawu'r cais am dystiolaeth hwn ac fe hoffem ddiolch i chi am y cyfle i rannu ein barn.

4.2 Mae angen i'r 2020au fod yn 'ddegawd o weithredu' os ydym am gwrdd â sero net erbyn 2050. Dyma ddegawd hollbwysig pan allwn wneud cynnydd o ddifri i ddatgarboneiddio a thaclo tlodi tanwydd.

4.3 Mae datrys ein tai oer ac sy'n gollwng, a blaenoriaethu'r cymorth hwn i aelwydydd tlotach yn cael ei ystyried yn briodol fel yr ymateb craidd i sicrhau newid teg i sero net. I ddileu tlodi tanwydd, mae angen camau polisi uchelgeisiol a chydgyssylltiedig, gyda chefnogaeth briodol a gwarantiedig i'r rhai sydd ei angen.

4.4 Dros y 12-18 mis nesaf, hoffem weld ffocws ar flaenoriaethu a chefnogi'r gwaethaf-yn-gyntaf mewn targedau a chamau gweithredu. Mae iteriad nesaf y Rhaglen Cartrefi Cynnes yn allweddol i hyn; felly hefyd yr angen am ddylanwadu ar Lywodraeth y DU i ddiogelu, cefnogi a mwyafu'r cyfleoedd ar gyfer aelwydydd incwm isel ac agored i niwed yng Nghymru yn ei materion a gedwir yn ôl.

4.5 Fel y nododd y Gweinidog a'r Dirprwy Weinidog, mae her newid yn yr hinsawdd yn mynnu bod pawb yn gweithio ar y cyd ar draws ffiniau daearyddol a sectoraidd, ac mae cydweithio'n hanfodol os ydym am fod yn llwyddiannus.

4.6 Rydym yma i helpu a gyda chefnogaeth gan y Pwyllgor, byddwn yn gweithio i sicrhau y gall y rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu mewn perygl o fod ymhlith y cyntaf i elwa.

DIWEDD

¹ Gweler Arolwg Amodau Tai Cymru, 2018: <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-10/arolwg-cyflwr-tai-cymru-effeithlonrwydd-ynni-anheddau-ebrill-2017-i-mawrth-2018-794.pdf>.

² Gweler <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-12/amcangyfrifon-tlodi-tanwydd-ar-gyfer-cymru-2018.pdf>. Noder: Amcangyfrifwyd bod 155,000 o aelwydydd yng Nghymru (h.y. cyfwerth â 12% o'r holl aelwydydd) yn byw mewn tlodi tanwydd yn 2018. Roedd 32,000 (h.y. 2% o'r holl aelwydydd) yn byw mewn tlodi tanwydd difrifol. Yn sgil y pandemig COVID-19, mae'r niferoedd hyn yn debygol o fod yn sylweddol uwch nawr gan fod pobl wedi bod gartref yn fwy, yn defnyddio mwy ac yn cronni dyled, a hynny wrth iddynt ennill llai. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi 'rhagamcaniadau tlodi tanwydd' wedi'u diweddarau yng ngoleuni'r pandemig ddiwedd eleni.

³ *ibid*

⁴ Gweler *Gwneud Gwahaniaeth Tai ac Iechyd: Yr Achos dros Fuddsoddi yn* <https://icc.gig.cymru/newyddion/cyhoeddiadau/gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd/icc-gwneud-gwahaniaeth-tai-ac-iechyd-yr-achos-dros-fuddsoddi-pdf/>

⁵ *ibid*

⁶ Gweler adroddiad diweddar Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru, *Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-osod*, mewn partneriaeth â New Economics Foundation. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at y ffaith y byddai mesurau ôl-osod yn dileu tlodi tanwydd ac yn lleihau costau ynni diangen, gan arbed £418 y flwyddyn ar gyfartaledd i drigolion Cymru ar eu biliau ynni (cyfanswm o £8.3bn erbyn 2040); heb sôn am y manteision amgylcheddol ac iechyd sylweddol,

gan gynnwys arbediad costau o £4.4bn i'r GIG erbyn 2040. Mae'r Comisiynydd yn galw ar Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i gydweithio i ariannu'r her ôl-osod gan ddefnyddio'r holl ysgogiadau ariannol sydd ar gael iddynt. Mae'r cynigion yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn dyblu cyllid tloti tanwydd i £732m erbyn 2030 ac yn ei ategu â grantiau i bobl ar incwm isel a fyddai ar gael o gyllid seilwaith cenedlaethol Llywodraeth y DU (£2.6bn, ynghyd â dyraniad o £1bn o'r Gronfa Ffyniant a Rennir). Crynhoir canfyddiadau'r adroddiad mewn Crynodeb Gweithredol (<https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/07/CYM-Exec-Summary-CYM-Financing-the-decarbonisation-of-housing-in-Wales.pdf>), a ategir gan Grynoded Technegol (<https://www.futuregenerations.wales/wp-content/uploads/2021/07/CYM-Tech-Summary-CYM-Financing-the-decarbonisation-of-housing-in-Wales.pdf>). Amlinellir ystyriaethau modelu ac ariannol yn yr adroddiad manwl (<https://neweconomics.org/uploads/files/Financing-Wales-Housing-Decarbonisation.pdf>)

⁷ Gweler Adroddiad Blyneddol Nyth 2019-20 yn <https://nest.gov.wales/workspace/uploads/files/nest-annual-report-welsh-5f5b52d14ba65.pdf>

⁸ Gweler <https://senedd.cymru/laid%20documents/cr-ld13147/cr-ld13147-w.pdf>

⁹ Gan adleisio Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar ei hadroddiad diweddar, *Cartrefi Addas ar gyfer y Dyfodol: Yr Her Ôl-ffitio*, y poblogaethau tlotaf a mwyaf ar yr ymylon sy'n lleiaf cyfrifol am newid yn yr hinsawdd ond y rhai mwyaf tebygol o fod yn agored i'w effeithiau negyddol, yn fwy agored i niwed, a gyda'r adnoddau lleiaf i ymateb, ymdopi ac ymadfer, felly dylai Cymru dargedu'r cartrefi gwaethaf yn gyntaf.